***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 1672 (Cy.160)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU
# PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *21 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *23 Mehefin 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a gynhwysir yn adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947(**1**), adran 12 o Ddeddf Blwydd-dal 1972(**2**) fel y mae wedi'i chymhwyso gan adran 16(3) o'r Ddeddf honno (**3**), adrannau 36, 53, 60 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (**4**), ac adran 259(1), (2)(c) a (4)(b) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**5**):

(**1**) 1947 p.41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) ac Atodlen 2 iddi. Parhawyd i gadw isadrannau (1) i (5) o adran 26 mewn grym, at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno fel Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ac a nodwyd yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257)). Newidiwyd enw'r cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) gan erthygl 4(1) o'r Gorchymyn hwnnw. Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf 1947 gan adran 1 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1951 (p.27), adran 42 o Ddeddf y Lluoedd Wrth Gefn a'r Lluoedd Cynorthwyol (Amddiffyn Buddiannau Sifil) 1951 (p.65), adran 33 o Ddeddf Lladrata 1968 (p.60) ac Atodlen 3 iddi, adrannau 16 a 29 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (p.11) ac Atodlen 8 iddi, adran 100 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1973 (p.38) ac Atodlen 27 iddi, adran 1 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 (p.18) ac Atodlen 1 iddi, adran 32 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43), adran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 (p.52) ac erthygl 2 i Orchymyn Nawdd Cymdeithasol (Diwygio Deddf y Gwasanaethau Tân 1947) 1976 (O.S. 1976/551).

(**2**) 1972 p.11; diwygiwyd adran 12 gan Ddeddf Pensiynau (Darpariaethau Amrywiol) 1990 (p.7).

(**3**) Parhawyd i gadw adran 16 mewn grym, at ddibenion Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (a ailenwyd yn Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)) gan Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/2918 (Cy.257)).

(**4**) 2004 p.21.

(**5**) 2004 p.33.